



Scott Waddington
Cadeirydd – Trafnidiaeth Cymru
Canolfan QED
Y Brif Rodfa
Ystâd Ddiwydiannol Trefforest
Trefforest
Rhondda Cynon Taf
CF37 5YR

30 Ebrill 2019

Annwyl Scott

LLYTHYR CYLCH GWAITH AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL 2019-31 MAWRTH 2020

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith hwn yn nodi cylch gwaith gweithredol Trafnidiaeth Cymru rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020 (y "Cyfnod") a lefel gronnydd y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i gyflawni'r cylch gwaith hwn.

Bu cyfnod ariannol 2018/19 yn gyfnod pwysig yn nhwff Trafnidiaeth Cymru wrth iddi ddatblygu momentwm wrth sicrhau newid sylweddol yn y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau a seilwaith trafniadaeth ledled Cymru. Bydd cylch gwaith cyfnod ariannol 2019/20 yn sicrhau bod y Cwmni yn parhau i gyflawni elfen greiddiol o raglen lywodraethu Llywodraeth Cymru.

Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru wedi'u gosod yng nghyd-destun Symud Cymru Ymlaen 2016-2021, Ffyniant i Bawb: y Strategaeth i Gymru, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At hynny, mae'r Prif Weinidog wedi ymrwymo i rymuso Trafnidiaeth Cymru i gyflawni system trafniadaeth gyhoeddus sydd â'r nod o'i gwneud yn haws i bawb gael mynediad i fysiau, trenau a theithio llesol ar gyfer siwrneiau bob dydd.

Mae gan Trafnidiaeth Cymru rôl bwysig i ysgogi integreiddio ym mhob rhan o'r rhwydwaith trafniadaeth cyfan drwy roi'r teithiwr wrth wraidd popeth a wna. Uchelgais Gweinidogion Cymru ar gyfer Trafnidiaeth Cymru yw achub ar y cyfle sydd ganddi, fel integreiddiwr trafniadaeth, a'i galluogi i ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o swyddogaethau trafniadaeth. Fel cwmni cofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau 2016, mae gan Trafnidiaeth Cymru hunaniaeth gyfreithiol glir o fewn fframwaith cadarn ac sydd wedi'i sefydlu'n dda, sy'n ei galluogi i wneud penderfyniadau gweithredol annibynnol. Fodd bynnag, fel is-gwmni dan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

berchenogaeth lwyr Gweinidogion Cymru, mae Trafnidiaeth Cymru yn rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a rhaid iddi weithredu er budd y cyhoedd.

Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ddangos ei hymrwymiad i fod yn agored ac yn dryloyw. Dylai barhau i ddarparu gwybodaeth ar ei gwefan. Mae Trafnidiaeth Cymru hefyd yn chwilio am gyfleoedd i ryngweithio ag Awdurdodau Lleol, Aelodau Cynulliad, y cyhoedd a'r cyfryngau gyda'r nod o sicrhau bod rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ymwybodol mai Trafnidiaeth Cymru sy'n gyfrifol am bob penderfyniad gweithredol sy'n gysylltiedig â chyflawni ei Chynlluniau Corfforaethol a Gweithredol.

Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol

Dylai Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi Cynllun Corfforaethol pum mlynedd ar gyfer y cyfnod rhwng 2019-20 a 2023-14 erbyn diwedd 2019, gan fanylu ar yr amcanion llesiant cysylltiedig. Dylai'r cynllun hwn nodi sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cymhwyso'r polisi a'r fframwaith deddfwriaethol ac, wrth wneud hynny, yn pennu gweledigaeth sy'n cymell ac yn grymuso ei staff a'i rhanddeiliaid ac sy'n hyrwyddo brand Trafnidiaeth Cymru a'r ffordd y mae'n rhoi'r teithiwr wrth wraidd popeth a wna.

Dylai'r cynllun ddangos sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn mynd ati i gyflawni'r weledigaeth hon mewn ffordd arloesol ac uchelgeisiol, gan osod safon newydd ar gyfer y ffordd rydym yn cynllunio ac yn buddsoddi mewn gwasanaeth a seilwaith trafndiaeth.

At hynny, bydd angen i'r Cynllun Corfforaethol nodi'r glir sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn mynd ati'n uniongyrchol i sicrhau mwy o gydweithio â thimau rhanbarthol Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, yr awdurdodau trafndiaeth rhanbarthol newydd a phartneriaid er mwyn creu rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig, a sicrhau bod Trafnidiaeth Cymru, yn gynyddol, yn berchen ar y rhwydweithiau hyn, neu'n eu gweithredu, yn uniongyrchol.

Dylai gweithgareddau Trafnidiaeth Cymru gyd-fynd yn glir â'r themâu allweddol a nodir yn Ffyniant i Bawb, y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ac amcanion Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a dylid eu mesur mewn ffordd sy'n darparu llinell welediad uniongyrchol rhwng strategaeth ac effaith, gan ddangos gwerth am arian ac enillion meintiol ar fuddsoddiad.

Dylai Trafnidiaeth Cymru ddangos sut y bydd yn gweithio gyda phartneriaid allweddol, fel Banc Datblygu Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru, i nodi cyfleoedd i gydweithio a sefydlu arferion yn y flwyddyn i ddod, yn arbennig lle y gellir sicrhau'r gwerth ychwanegol mwyaf posibl.

Drwy fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu ei staff presennol a staff newydd, yn ogystal â chynnyg llwybrau gyrfa a chyfleoedd ar gyfer twf a meithrin sgiliau, mae Trafnidiaeth Cymru mewn sefyllfa unigryw i allu datblygu a chynnal sylfaen sgiliau trafndiaeth proffesiynol, gan gefnogi cyflogaeth yng Nghymru, a'i heconomi. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ymgymryd â mwy a mwy o swyddogaethau yn fewnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle hwn.

Dylai Trafnidiaeth Cymru sefydlu fframwaith y Contract Economaidd fel modd o ddarparu buddsoddiad cyhoeddus â diben cymdeithasol, a chadw at ei egwyddorion, sef twf cynhwysol, gwaith teg, iechyd a sgiliau yn y gweithle a rheoli'r ôl-troed carbon. Dylai hyn gynnwys y ffordd y byddai cytundebau caffael a chontractiol yn cael eu diwygio er mwyn galluogi Trafnidiaeth Cymru i wneud hyn.

At hynny, dylai Trafnidiaeth Cymru geisio sicrhau enillion masnachol drwy fanteisio ar asedau nad yw'n gwneud defnydd llawn ohonynt yn uniongyrchol ar hyn o bryd er mwyn

sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol a/neu wella effeithiolrwydd y gadwyn gyflenwi (yn enwedig yng Nghymru).

Gellir ystyried unrhyw ased, e.e. tir, adeiladau ac eiddo deallusol Trafnidiaeth Cymru fel corff darparu trafndiaeth arbenigol, drwy godi tâl ar drydydd partion am ei gwasanaethau arbenigol. Lle mae Trafnidiaeth Cymru yn darparu gwasanaethau i gwmnïau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddai'r rhain yn cael eu darparu ar sail adennill costau. Y rheswm am hyn yw bod y mwyafrif o incwm Trafnidiaeth Cymru yn dod o gronfeydd cyhoeddus ac mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu am bris teg ac er budd y cyhoedd. Disgwylir y byddai'n rhaid i unrhyw arbedion effeithlonrwydd ychwanegol a gynhyrchwyd gan Trafnidiaeth Cymru y tu hwnt i'r hyn a nodir yn y Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol gael eu dychwelyd i Lywodraeth Cymru.

Felly, bydd angen i'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol ddangos strwythur a gallu mewnol Trafnidiaeth Cymru i hwyluso'r gwaith o gyflawni'r cylch gwaith hwn, gan ystyried unrhyw gylch gwaith posibl yn y dyfodol i gyflawni ymrwymadau'r rhaglen lywodraethu.

Brexit

Dylai'r Cynllun Gweithredol ystyried effaith Brexit ar weithgareddau Trafnidiaeth Cymru. Mae'n bwysig bod Trafnidiaeth Cymru yn adolygu ei dadansoddiad risg o effaith Brexit ar ei busnes a'i chadwyn gyflenwi, ac yn adrodd ar hynny i Lywodraeth Cymru. Mae'n bwysig hefyd yn ystod y cyfnod hwn fod Trafnidiaeth Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol ac yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod gweithgarwch datblygu polisi a gohebiaeth gysylltiedig yn adlewyrchu adborth eich rhanddeiliaid.

Brand, Marchnata a Chyfathrebu

Nod Llywodraeth Cymru yw creu rhwydwaith trafndiaeth integredig y mae Cymru'n falch ohono. Mae'n bwysig bod Trafnidiaeth Cymru yn ymdrechu i'r eithaf i gynyddu ymwybyddiaeth o'i brand a gwella canfyddiadau teithwyr, y cyhoedd, ei rhanddeiliaid a'r gadwyn gyflenwi. Felly, dylai Trafnidiaeth Cymru gynnal adolygiad blynyddol sy'n nodi'n glir welliannau parhaus o ran ymwybyddiaeth o'r brand. Dylai hyn hefyd gynnwys mynd i'r afael ag unrhyw ganfyddiadau am y gwasanaeth a ddarperir ganddi.

Dylai'r Cynllun Corfforaethol nodi'n glir sut y bydd Trafnidiaeth Cymru yn datblygu ei brand fel un cryf sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, y bydd teithwyr a rhanddeiliaid ledled Cymru yn ei gydnabod ac yn deall ei werthoedd.

At hynny, dylai'r Cynllun Corfforaethol gynnwys gwybodaeth am y modd y bydd gweithgarwch marchnata a chyfathrebu Trafnidiaeth Cymru yn hyrwyddo gwerthoedd ei brand ac yn ei helpu i gyflawni ei Chynllun Gweithredol a themâu allweddol Llywodraeth Cymru ar lefel strategol a thactegol.

Presenoldeb Ledled Cymru gyfan

Dylai Trafnidiaeth Cymru gyhoeddi Strategaeth Lleoliadau erbyn hydref 2019. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Trafnidiaeth Cymru ddangos sut mae'n bwriadu gwneud newid sylweddol i'w phresenoldeb ffisegol ym mhob rhan o Gymru, gan wella ymwybyddiaeth teithwyr a rhanddeiliaid o frand Trafnidiaeth Cymru.

Sefydlodd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi y Model Datblygu Economaidd Rhanbarthol, gan sefydlu tair uned ranbarthol. Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried yn ei Strategaeth Lleoliadau sut y bydd yn cysoni â'r strwythur rhanbarthol. Dylai hefyd ystyried sut y bydd ei

Strategaeth Lleoliadau yn effeithio ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth i deithwyr ledled ardaloedd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Datgarboneiddio ac Ansawdd Aer

Dylai Trafnidiaeth Cymru nodi ei chyfraniad at leihau CO2 ac allyriadau eraill o drafnidiaeth yng Nghymru o fewn cyd-destun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wella ansawdd aer.

Gwasanaeth rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru

Mae Gweinidogion Cymru wedi nodi Trafnidiaeth Cymru fel eu hasiant mewn perthynas â'r Cytundeb Grant rhwng Gweinidogion Cymru a Gweithredwr a Phartner Cyflenwi darparu gwasanaethau rheilffyrdd Cymru a'r Gororau a Metro De Cymru. Felly, caiff Trafnidiaeth Cymru ei grymuso mewn perthynas â'r holl faterion sy'n ymwneud â Chytundeb Grant y Gweithredwr a'r Partner Cyflenwi a'i hawdurdodi gan Weinidogion Cymru i arfer holl swyddogaethau, hawliau a phwerau Gweinidogion Cymru fel y'u nodir yng Nghytundeb Grant y Gweithredwr a'r Partner Cyflenwi. Bydd Trafnidiaeth Cymru yn parhau i weithredu fel asiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Cytundeb Grant y Gweithredwr a'r Partner Cyflenwi gan sicrhau y caiff gwasanaethau trenau dibynadwy o ansawdd uchel eu darparu'n gyson i deithwyr ledled Cymru a'r Gororau.

Dylai Trafnidiaeth Cymru fynd ati, cyn gynted â phosibl, i nodi ei chynllun ar gyfer darparu Gweithredwr Dewis Olaf sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaethau rheilffyrdd.

Gwasanaethau Rheilffyrdd

Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried yn barhaus gyfleoedd i fuddsoddi mewn gwasanaethau rheilffyrdd, gan gynnwys sut y gellid sicrhau gwerth ychwanegol ar gyfer y system trafndiaeth gyhoeddus (neu ar draws meysydd polisi ehangach Llywodraeth Cymru) o ganlyniad i fuddsoddiad o'r fath. Lle y caiff cyfleoedd o'r fath eu nodi sydd y tu hwnt i gwmpas y Cynllun Gweithredol, dylid cyflwyno achos cyfiawnhad busnes i Lywodraeth Cymru ei ystyried o fewn yr amserlenni priodol yn dibynnu ar faint a chymhlethdod y cyfle.

Trosglwyddo Ased Cledrau Craidd y Cymoedd

Mae Trafnidiaeth Cymru yn helpu Llywodraeth Cymru i drosglwyddo ased Cledrau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys cymorth rheoli prosiect, llunio'r achos busnes dros drosglwyddo'r ased, ac unrhyw arbenigedd pwnc gofynnol.

Disgwylir y caiff asedau Cledrau Craidd y Cymoedd eu trosglwyddo i Trafnidiaeth Cymru ar 20 Medi 2019. Felly, dylai Trafnidiaeth Cymru ddatblygu ei gallu i reoli'r ased er mwyn sicrhau ei bod yn gweithredu yn ôl yr arfer yn dilyn ei throsglwyddo. Rhaid i hyn gynnwys sefydlu trefniadau llywodraethu cadarn ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol er mwyn gweithredu'r ased yn ddiogel a bodloni gofynion rheoliadol y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrrdd.

Cyn i ased Cledrau Craidd y Cymoedd gael ei throsglwyddo, dylai Trafnidiaeth Cymru nodi cynllun i ddarparu Rheolwr Seilwaith Dewis Olaf sydd â'r gallu i ddarparu gwasanaethau Rheoli Seilwaith mewn perthynas â Cledrau Craidd y Cymoedd.

Seilwaith Rheilffyrdd

Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried cyfleoedd strategol byrdymor, tymor canolig a hirdymor i fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd, a hynny yn barhaus, er mwyn sicrhau gwerth ariannol a/neu gymdeithasol ychwanegol. Lle y caiff cyfleoedd eu nodi sydd y tu hwnt i gwmpas y Cynllun Gweithredol, dylid cyflwyno achos cyfiawnhad busnes i Lywodraeth Cymru ei ystyried.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r buddsoddiadau mewn seilwaith rheilffyrdd a nodwyd yn y Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol drwy gymryd cyfrifoldeb am reoli prosiectau a rhaglenni seilwaith rheilffyrdd yn barhaus ac yn feunyddiol.

Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydanol mewn Gorsafoedd Trenau

Dylai Trafnidiaeth Cymru gynllunio a chynnal proses gaffael er mwyn dyfarnu consesiwn ar gyfer darparu ac ariannu seilwaith gwefru cerbydau trydanol mewn gorsafoedd trefnau yng Nghymru. Ar y cyd â phartneriaid, dylai Trafnidiaeth Cymru geisio nodi'r gorsafoedd mwyaf addas ar gyfer y seilwaith gan ystyried y cyfleusterau parcio ceir sydd ar gael a'r defnydd posibl o'r seilwaith gan gerbydau modur preifat, tacsis, bysiau/coetsys a cherbydau masnachol ysgafn ($\leq 3.5t$). At hynny, dylai nodi'r cyfuniad mwyaf addas o dechnoleg gwefru ar gyfer maes parcio pob gorsaf a nodwyd ar sail y defnydd presennol a'r defnydd posibl gan gerbydau modur preifat (defnyddwyr trenau a phreswylwyr cyfagos a allai ddefnyddio maes parcio'r orsaf dros nos), tacsis a bysiau/coetsys.

Adolygu gwasanaethau bysiau

Dylai Trafnidiaeth Cymru barhau i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth adolygu gwasanaethau bysiau drwy ddarparu swyddogaeth broffesiynol ac ymgynghorol. Yn benodol, bydd Trafnidiaeth Cymru yn cydweithio â gweithredwyr ac awdurdodau lleol er mwyn cynnal rhaglen gydlynol i wella gwasanaethau bysiau yng Nghymru, gan gynnwys cynnal cynlluniau peilot i gefnogi buddiannau'r camau diwygio arfaethedig.

Rhaglen disodli Cardiau Teithio Rhatach

Yn amodol ar Weinidogion Cymru yn ymrwmo i Gytundeb Asiantaeth ag Awdurdodau Lleol ledled Cymru, bydd Trafnidiaeth Cymru yn darparu arbenigedd a chymorth technegol er mwyn arwain y rhaglen i adnewyddu Cardiau Teithio Rhatach a systemau cysylltiedig ar ran Llywodraeth Cymru a'r 22 o Awdurdodau Lleol erbyn 31 Rhagfyr 2019.

Tocynnau Cenedlaeth Nesaf a Thrafnidiaeth Ymatebol Integredig

Er mwyn cefnogi'r gwaith o greu rhwydwaith trafndiaeth cwbl integredig, dylai Trafnidiaeth Cymru geisio datblygu tocynnau aml-weithredwr ac atebion i faterion trafndiaeth sy'n ymateb i'r galw.

Datblygu Cyfnewidfeydd Trafnidiaeth

Dylai Trafnidiaeth Cymru gefnogi Llywodraeth Cymru wrth weithio gyda phartneriaid lleol i lunio cynlluniau adfywio a datblygiadau sy'n canolbwyntio ar dtrafnidiaeth yn yr ardaloedd o amgylch gorsafoedd trenau. Dylai Trafnidiaeth Cymru ystyried sut y gallai buddsoddi mewn gwasanaethau a seilwaith trafndiaeth wella ac integreiddio cysylltiadau trafndiaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o gyfuno gweithgareddau sector cyhoeddus yn ymyl gorsafoedd trenau, codi tai fforddiadwy newydd, adfywio canol trefi, manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd diwylliannol a thwristiaeth a datblygu swyddfeydd masnachol ac, i raddau cyfyngedig iawn, lleoedd manwerthu.

Dylai Trafnidiaeth Cymru weithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried yr amrywiaeth o ffyrdd o nodi'r cynnydd mewn gwerth sy'n arwain at fuddsoddi mewn seilwaith a gwasanaethau trafndiaeth, ac i fanteisio i'r eithaf ar y dulliau hynny.

Cronfa Teithio Llesol

Dylai Trafnidiaeth Cymru ddarparu arbenigedd a chymorth technegol mewn perthynas ag amrywiaeth o faterion teithio llesol, gan gynnwys adolygu'r Canllawiau ar Gynlluniau Teithio Llesol, arfarnu ceisiadau am grant ac ymholiadau technegol am y broses o baratoi cynlluniau, a chynorthwyo proses WelTAG o safbwynt teithio llesol ar gyfer cynlluniau a hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru.

At hynny, dylai Trafnidiaeth Cymru gefnogi gweithgareddau ledled Cymru sydd â'r nod o wella'r broses o gymhwyso'r Ddeddf Teithio Llesol, yn enwedig y gweithgareddau hynny sy'n ymwneud â hyfforddi, cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth, ac ymgynghori ac ymgysylltu, yn ogystal ag ehangu argaeledd cynlluniau rhannu beiciau, drwy ddarparu arbenigedd a chefnogi'r broses o gaffael gwasanaethau ar lefel Cymru gyfan.

Dylai Cynllun Gweithredol Trafnidiaeth Cymru ystyried ei gallu mewnol yn ogystal â'i gallu i reoli a chyflawni cynlluniau buddsoddi mewn Teithio Llesol, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yn y dyfodol.

Cynllunio Trafnidiaeth a Modelu Traffig

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol ac awdurdodau trafndiaeth rhanbarthol i sicrhau bod ei gwaith cynllunio o ansawdd uchel ac yn diwallu anghenion economi'r dyfodol. Dylai ddatblygu ei Huned Dadansoddi ymhellach er mwyn sicrhau y gall ymgymryd â gwaith modelu trafndiaeth a sicrwydd dadansoddol a gwaith monitro a dadansoddi data, rhoi cyngor ar dechnegau arolygu a dadansoddi, a pharatoi a chyflwyno gwybodaeth er mwyn helpu i ddatblygu polisiau o fewn Llywodraeth Cymru a'n partneriaid.

Bydd Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu canolfan ymchwil trafndiaeth, gan nodi gofynion, allbynnau a manylebau er mwyn helpu i'w chaffael.

Cyngor Arbenigol a Rheoli Prosiectau

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddibynnu ar Trafnidiaeth Cymru am ddarparu cymorth ymgynghorol proffesiynol parhaus, gan gynnwys datblygu'r achos dros fuddsoddi yn y rhwydwaith trafndiaeth. Disgwylir y bydd y cydbwysedd rhwng y defnydd o gyflogeion Trafnidiaeth Cymru ac ymgynghorwyr allanol ar draws y gwasanaethau hyn yn parhau i gael ei ailgydbwyso, gyda'r nod o feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth a gallu mewnol Trafnidiaeth Cymru. Rhaid i Trafnidiaeth Cymru ddatblygu ei gallu a'i hadnoddau mewnol er mwyn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru i ddatblygu achosion busnes unigol, astudiaethau dichonoldeb a chefnogi'r broses WelTAG.

At hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru ddarparu adnodd rheoli prosiectau mewn perthynas â phrosiectau trafndiaeth penodol.

Dyrannu Cyllid Cronnus

Nodir isod y cyllid cronnus sydd ar gael i Trafnidiaeth Cymru er mwyn cyflawni'r cylch gwaith hwn:

	Terfyn:
Cyllid Refeniw Cronnus	£174,310,000
Cyllid Cyfalaf Cronnus	£119,421,000

Telir y cyllid i Trafnidiaeth Cymru fel grant misol ymlaen llaw yn seiliedig ar ei hawliad chwarterol. Caiff taliadau ymlaen llaw a wneir i Trafnidiaeth Cymru eu gwrthbwysu gan y terfynau cyllid cronnus yn ystod y broses o ddefnyddio'r grant misol. Caiff gwariant Trafnidiaeth Cymru a dalwyd ganddi ei gysoni'n rheolaidd yn ystod y Cyfnod.

Mae'r Terfyn Cyllid Refeniw Cronnus a'r Terfyn Cyllid Cyfalaf Cronnus yn cynnwys unrhyw TAW y bydd Trafnidiaeth Cymru yn atebol i'w thalu ond na all ei hadennill.

Cyfrifoldeb Trafnidiaeth Cymru yw sicrhau y caiff ei gwariant ei reoli'n unol â'r Erthyglau Cymdeithasu, y Cytundeb Rheoli a'r canllawiau perthnasol. Yn benodol, ni all drosglwyddo cyllid rhwng y Terfyn Cyllid Refeniw Cronnus a'r Terfyn Cyllid Cyfalaf Cronnus heb gael caniatâd ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Bydd hefyd yn ofynnol i Trafnidiaeth Cymru gael cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru i drosglwyddo cyllid rhwng y prif gostau yng Nghynllun Gweithredol terfynol Trafnidiaeth Cymru. Disgwyliaf i Trafnidiaeth Cymru lynu wrth y terfynau gwariant hyn a chofnodi unrhyw newidiadau a ragwelir i broffiliau'r prif gostau cyn gynted â phosibl drwy Fwrdd Gweithredol Trafnidiaeth Cymru.

Monitro Perfformiad

Caiff cynnydd Trafnidiaeth Cymru o ran y Llythyr Cylch Gwaith a'r Cynllun Gweithredol, yn ogystal â'r trefniadau a nodir yn y Cytundeb Rheoli, eu monitro yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol a gynhelir bob pythefnos, a thrwy gyfarfodydd rhwng Llywodraeth Cymru a chithau fel Cadeirydd Trafnidiaeth Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gydnabod derbyn y llythyr hwn a chadarnhau eich bod yn fodlon ar y manylion a roddwyd.

Yn gywir



Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport